

Etholiadau Lleol yng Nghymru

# Canllawiau i ymgeiswyr ac asiantiaid

Dogfen Trosolwg

Ionawr 2022

Mae'r ddogfen hon yn gymwys i etholiadau sirol a bwrdeistref sirol. Nid yw'n gymwys i etholiadau cyngorau cymuned. Gellir gweld ein canllawiau a'n hadnoddau ar gyfer etholiadau eraill yn y DU ar ein gwefan yn:

<https://www.electoralcommission.org.uk/cy/rwyf-yneg-pleidleisiwr/ymgeisydd-neu-asiant>

# Cynnwys

Diben ein canllawiau i ymgeiswyr ac asiantiaid .....	2
Sut i ddefnyddio ein canllawiau .....	2
Y derminoleg a ddefnyddir yn y canllawiau.....	4
Pwy sy'n gwneud beth mewn etholiad lleol a sut gallwch gysylltu â nhw?.....	4
Y Swyddog Canlyniadau.....	4
Y Swyddog Cofrestru Etholiadol .....	4
Y Comisiwn Etholiadol .....	5
Cysylltu â ni.....	6
Os ydych yn ymgeisydd neu'n asiant yn Lloegr .....	<b>Error!</b>
<b>Bookmark not defined.</b>	
Os ydych yn ymgeisydd neu'n asiant yng Nghymru..	<b>Error!</b>
<b>Bookmark not defined.</b>	

# 2

## Diben ein canllawiau i ymgeiswyr ac asiantiaid

1.1 Nod ein canllawiau yw rhoi cyngor ymarferol i unrhyw un sydd am sefyll fel ymgeisydd neu fod yn asiant mewn etholiad llywodraeth leol yng Nghymru. Mae'n cynnwys y prif gamau tuag at sefyll fel ymgeisydd, cyfnodau'r ymgyrch a'r etholiad, datgan y canlyniadau a'r gwariant ar yr etholiad. Mae'n cynnwys ffeithiau perthnasol yn ogystal â chyfeiriadau at ffynonellau gwybodaeth eraill. Gall y broses o sefyll etholiad fod yn gymhleth, ond gobeithiwn y bydd y canllaw hwn yn ei gwneud mor syml â phosibl.

## Sut i ddefnyddio ein canllawiau

1.2 Mae ein canllawiau'n cynnwys chwe rhan, sy'n nodi'r camau gwahanol y bydd angen i ymgeiswyr ac asiantiaid fynd drwyddynt os byddant yn sefyll etholiad llywodraeth leol.

1.3 Mae pob rhan yn cynnwys nifer o ffurflenni ac adnoddau, y gellir cael gafael arnynt yn uniongyrchol drwy ddolenni yn y rhannau unigol. Fel arall, bydd canllawiau, ffurflenni ac adnoddau perthnasol ar gael ar ein [tudalen gwe benodedig i ymgeiswyr ac asiantiaid](#).

1.4 Mae ein canllawiau llawn ar etholiadau lleol yn cynnwys y rhannau canlynol:

- [Rhan 1 – A allwch sefyll etholiad?](#)
- [Rhan 2a – Sefyll fel ymgeisydd annibynnol](#)
- [Rhan 2b – Sefyll fel ymgeisydd plaid](#)
- [Rhan 3 – Gwariant a rhoddion](#)
- [Rhan 4 – Yr ymgyrch](#)
- [Rhan 5 – Eich hawl i fynychu digwyddiadau etholiadol allweddol](#)
- [Rhan 6 – Ar ôl datgan y canlyniadau](#)

Mae deddfwriaeth diogelu data yn gymwys i brosesu pob math o ddata personol.

Cysylltwch â [Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth](#) i gael rhagor o wybodaeth am y ffordd y mae'r ddeddfwriaeth diogelu data bresennol yn effeithio arnoch chi.

1.5 Cyn cychwyn ar y broses o sefyll etholiad, mae angen i ddarpar-ymgeiswyr fod yn hyderus eu bod yn bodloni'r holl ofynion. Felly dylech ddarllen [Rhan 1](#) ein canllawiau, sy'n cwmpasu'r cymwysterau a'r anghymwysiaidau.

1.6 Pan fyddwch yn fodlon y gallwch sefyll, dylech ddarllen [Rhan 2a](#) o'n canllawiau (os ydych yn sefyll fel ymgeisydd annibynnol) neu [Ran 2b](#) o'n canllawiau (os ydych yn sefyll fel ymgeisydd plaid), sy'n delio â'r broses enwebiadau ac yn eich tywys drwy ba ffurflenni y mae angen i chi eu cyflwyno ac erbyn pryd.

Rhaid i ymgeiswyr ac asiantiaid mewn etholiadau llywodraeth leol ddilyn rheolau penodol ynghylch faint y gallant ei wario, gan bwy y gallant dderbyn rhoddion a beth y mae'n rhaid iddynt ei gofnodi ar ôl yr etholiad. Gallai methu â dilyn y rheolau hyn olygu eich bod yn cyflawni trosedd ac yn colli eich sedd, os cewch eich ethol. Mae [Rhan 3](#) o'n canllawiau yn esbonio'r rheolau.

1.7 Mae [Rhan 4](#) yn ymdrin â'r rheolau ar gyhoeddi ac arddangos deunydd darllen yr ymgyrch a'r hyn y mae angen i chi ei gofio wrth ymgyrchu.

1.8 Mae gan ymgeiswyr ac asiantiaid hawl hefyd i fynychu digwyddiadau etholiadol allweddol, sef: Ymhlith y rhain mae: achlysur agor amlenni pleidleisiau post; y bleidlais; a'r cyfrif. Gall eraill gael eu penodi i fynychu'r digwyddiadau etholiadol hyn hefyd. Ceir manylion am eich hawliau a'r hyn y gallwch ei ddisgwyl yn y digwyddiadau hyn yn [Rhan 5](#).

1.9 Yn olaf, mae nifer o bethau y bydd angen i ymgeiswyr ac asiantiaid eu gwneud ar ôl i'r canlyniad gael ei ddatgan, gan gynnwys cyflwyno eu ffurflenni gwario i'r Swyddog Canlyniadau. Ymdrinnir â hyn yn [Rhan 6](#).

1.10 Er mwyn cadw'r canllawiau mor berthnasol â phosibl i'r darllenydd, rydym wedi rhannu'r rhan fwyaf o rannau'r canllawiau yn adran 'Gwybodaeth hanfodol', y dylai pob ymgeisydd ac asiant ei darllen gan ei bod yn cynnwys gwybodaeth sy'n berthnasol i bawb, ac adran 'Gwybodaeth atodol', a fydd ond yn berthnasol i rai. Cewch eich cyfeirio at yr

# 4

adran 'Gwybodaeth atodol' ar adegau perthnasol yn yr adran 'Gwybodaeth hanfodol'.

## Y derminoleg a ddefnyddir yn y canllawiau

1.11 Mewn etholiadau llywodraeth leol, caiff yr ardal llywodraeth leol ei his-rannu yn ardaloedd etholiadol at ddibenion gweinyddu'r etholiad. Drwy gydol y rhannau rydym wedi defnyddio'r term 'ward' i gyfeirio at unrhyw ardal etholiadol ar gyfer unrhyw etholiad llywodraeth leol. Fodd bynnag, dylai'r term 'ward' gael ei ddarllen fel 'adran etholiadol' mewn etholiadau ar gyfer cynghorau sir a bwrdeistref sirol.

## Pwy sy'n gwneud beth mewn etholiad lleol a sut gallwch gysylltu â nhw?

### Y Swyddog Canlyniadau

1.12 Y Swyddog Canlyniadau sy'n trefnu etholiadau lleol yng Nghymru, ac fel arfer mae'n uwch swyddog yn yr awdurdod lleol ac yn annibynnol ar yr awdurdod o ran ei swyddogaethau etholiadol. Byddwch hefyd yn gallu cysylltu â'r Swyddog Canlyniadau dros eich ardal drwy gysylltu â'r swyddfa etholiadau leol. Ceir cyfeiriadau a rhifau ffôn pob swyddfa etholiad ar ein gwefan

[www.electoralcommission.org.uk/cy/rwyf-yneg-pleidleisiwr/pleidleisiwr](http://www.electoralcommission.org.uk/cy/rwyf-yneg-pleidleisiwr/pleidleisiwr).

1.13 Bydd y Swyddog Canlyniadau yn cynnig briffiadau cyn yr etholiad ac rydym yn eich annog chi neu eich asiant i'w mynychu, hyd yn oed os ydych wedi bod yn asiant neu wedi sefyll etholiad o'r blaen.

### Y Swyddog Cofrestru Etholiadol

- 1.14 Y Swyddog Cofrestru Etholiadol sy'n gyfrifol am gynnal y gofrestr etholwyr a rhestrau pleidleiswyr absennol ar gyfer ei ardal awdurdod lleol. Mae'r

Swyddog Cofrestru Etholiadol fel arfer yn uwch swyddog yn yr awdurdod lleol a gall hefyd gyflawni rôl y Swyddog Canlyniadau. Ceir manylion cyswllt eich Swyddog Cofrestru Etholiadol yn <https://www.electoralcommission.org.uk/cy/rwyf-yneg-pleidleisiwr/pleidleisiwr/gwybodaeth-etholiad>

## Y Comisiwn Etholiadol

1.15 Rydym yn gorff statudol annibynnol a sefydlwyd ym mis Tachwedd 2000 gan Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000. Cawn ein harwain ar hyn o bryd gan ddeg Comisiynydd, gan gynnwys Cadeirydd. Rydym yn uniongyrchol atebol i Senedd y DU drwy bwyllgor a gadeirir gan Lefarydd Tŷ'r Cyffredin.

1.16 Rydym yn gyfrifol am gofrestru pleidiau gwleidyddol ac ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau, monitro a chyhoeddi rhoddion sylweddol i bleidiau gwleidyddol cofrestredig a rheoleiddio gwariant ymgyrchwyr plaid a rhai nad ydynt yn bleidiau mewn etholiadau penodol. Mae gennym rôl i'w chwarae hefyd wrth hyrwyddo ymwybyddiaeth ymhlith pleidleiswyr. Mae'n ofynnol i ni adrodd ar weinyddiaeth rhai digwyddiadau etholiadol penodol, arolygu materion etholiadol yn rheolaidd ac, os gofynnir am hynny, adolygu ac adrodd ar unrhyw fater etholiadol. Rydym hefyd yn achredu arsylwyr i fod yn bresennol yn ystod gweithrediadau etholiadau.

1.17 Nid ydym yn rhedeg etholiadau ond ni sy'n gyfrifol am roi cyngor a chymorth ar faterion etholiadol i bawb sy'n gysylltiedig ag etholiadau, gan gynnwys Swyddogion Canlyniadau, Swyddogion Cofrestru Etholiadol, pleidiau gwleidyddol ac ymgeiswyr.

1.18 Rydym yma i helpu, felly cysylltwch â ni os oes gennych unrhyw gwestiynau.

# 6

## Cysylltu â ni

1.19 Os oes gennych unrhyw gwestiynau, gallwch gysylltu â ni yn:

E-bost: [gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk](mailto:gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk)

Ffôn: 0333 103 1929